**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A55 (CYFFORDD 35 (DOBSHILL) I GYFFORDD 34 (CYFNEWIDFA EWLOE), SIR Y FFLINT) (GWAHARDD CERBYDAU, BEICWYR A CHERDDWYR DROS DRO) 2026**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A55, neu gerllaw iddi, rhwng Cyffordd 35 a Chyffordd 34, Sir y Fflint.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd (ac eithrio'r rheini a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith), pob beiciwr a phob cerddwr rhag mynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybr arall yn yr Atodlen honno hefyd.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 18 Mawrth 2026. Disgwylir y bydd y gwaharddiadau dros dro yn weithredol dros nos (20:00 – 06:00 o'r gloch) o 18 i 20 Mawrth 2026 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**YR ATODLEN**

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 35 hyd at bwynt lle y mae'r ffordd ymuno wrth Gyffordd 34 yn ymuno â rhan tair lôn yr A494 wrth Ddolen Ewloe.

**THE A55 TRUNK ROAD (JUNCTION 35 (DOBSHILL) TO JUNCTION 34 (EWLOE INTERCHANGE), FLINTSHIRE) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES, CYCLISTS & PEDESTRIANS) ORDER 2026**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A55 trunk road between Junction 35 and Junction 34, Flintshire.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services or for the works), cyclists and pedestrians from proceeding on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Notice. The alternative route is also described therein.

The Order comes into force on 18 March 2026. The temporary prohibitions are expected to operate overnight (20:00 – 06:00 hours) from 18 – 20 March 2026, or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate on the dates specified above, it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work begins.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Transport
Welsh Government

**SCHEDULE**

The length of the westbound carriageway of the trunk road that extends from the nosing of the westbound exit slip road at Junction 35 to a point where the entry slip road at Junction 34 joins the three-lane section of the A494 at Ewloe Loop.

Y darn o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 35.

Y darn o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 34.

Y Llwybr Arall

Dylai traffig sy'n teithio tua'r gorllewin ymadael â'r A55 wrth Gyffordd 35 a dilyn yr A550 tua'r de, yr A549 tua'r gorllewin tuag at a thrwy Bwcle, yr A541 tua'r gogledd-orllewin a'r A5119 tua'r gogledd i ailymuno â'r A55 wrth Gyffordd 33 (Llaneurgain).

Ni fydd cerbydau sy'n 3 metr o led neu fwy yn gallu defnyddio'r llwybr arall, ond bydd trefniadau ar waith iddynt barcio dros nos mewn lleoliad dynodedig nes bod y gwaharddiad yn dod i ben.

The length of the westbound entry slip road at Junction 35.

The length of the westbound exit slip road at Junction 34.

Alternative route

Westbound traffic should leave the A55 at Junction 35 and follow the southbound A550, westbound A549 towards and though Buckley, north-westbound A541 and northbound A5119 to rejoin the A55 at Junction 33 (Northop).

Vehicles of or over 3 metres wide will be unable to use the alternative route, but arrangements will be in place for them to park up at a designated location overnight until the prohibition is lifted.